

Coleg Gwent

Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg

1^{af} o Awst 2018 – 31^{ain} Gorffennaf 2019

Hydref 2019



Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Coleg Gwent ar gyfer y cyfnod rhwng y 1af o Ebrill ar 31ain o Orffennaf 2018, yn darparu manylion o sut y mae'r coleg wedi cydymffurfio gyda Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Gwneud Polisi a'r Safonau Gweithredol yn ystod y cyfnod hwn. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg wedi cymryd lle Cynllun yr Iaith Gymraeg yn y Coleg ac maent yn gosod disgwyliadau clir o ran ein gwasanaethau dwyieithog a'r ffordd rydym yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

Derbyniodd Coleg Gwent Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y 29ain o Fedi 2017. Mae'r hysbysiad yn amlinellu dyletswydd y coleg i gwrdd â 182 o Safonau Iaith statudol yn ymwneud â'r Gymraeg a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Gwnaed cais llwyddiannus gan Goleg Gwent i Gomisiynydd y Gymraeg i herio 6 o'r safonau, 3 Safon Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 55, 58 and 59) a 3 Safon Gweithredol (safonau 128, 131 and 133). Arweiniodd hyn at Ddiwrnod Gosod hwyrach, sef y 1af o Hydref 2019, i Goleg Gwent ar gyfer y safonau hyn. Yn Awst 2019 roedd y coleg yn llwyddiannus yn ofyn am estyniad pellach I safonau 55, 58 and 59 tan Rhagfyr 16ed 2019.

Ers y 1af o Ebrill 2018, mae'r Coleg wedi cydymffurfio gyda'r 176 o safonau sydd yn weddill, gan achosi i ystyried y Safonau i ddod yn rhan arferol o waith staff o ddydd i ddydd.


Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Lluniodd a dosbarthodd Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd Coleg Gwent becyn 'Safonau Cymraeg - Canllaw I Reolwyr', sef arweiniad ar gyfer rheolwyr y coleg. Cafodd y pecynnau eu rhannu a rheolwyr cyn y 1af o Ebrill 2018, ac maent ar gael ar wefan y coleg a mewnrwyd staff. Mae'r pecyn yn cynnwys cyflwyniad i'r Safonau, eu perthnasedd a'u pwysigrwydd i holl reolwyr y coleg, yn ogystal â manylion pellach ar y materion isod:

- y cymysgedd cywir o sgiliau mewn tîm
- cefnogi tîm
- arwain drwy esiampl
- cyfieithu

- Delio â pheidio â chydymffurfio

Fel rhan o'r broses baratoi ar gyfer Ebrill y 1af, gwnaed hefyd ddogfen ar gyfer staff yn gyffredinol, sef 'Safonau Cymraeg: Beth maen nhw'n ei olygu imi?', sydd ar gael ar fewnwyd staff ac ar wefan y coleg. Mae'r ddogfen wedi ei gosod mewn fformat poster clir, gweler isod. Mae staff Coleg Gwent yn ymwybodol bod rhaid iddynt gydymffurfio gyda'r safonau.



Safonau Cymraeg

Beth maen nhw'n ei olygu imi?

Mae Safonau Cymraeg yn set o ofynion cyfreithiol-rwymol sydd â'r nod o wella'r gwasanaethau dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl eu derbyn gan y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i holl staff Coleg Gwent gydymffurfio â'r canlynol:

Gwnewch yn siŵr bod eich llofnod e-bost yn hollol ddwyieithog

Mae'n rhaid i chi gyfarch pobl sy'n ffonio'n ddwyieithog **e.e bore da/good morning, prynhawn da/good afternoon..**

Mae angen i'ch neges allan o'r swyddfa fod yn hollol ddwyieithog

Os na allwch barhau â galwad ffôn yn Gymraeg, cynigiwch gysylltu ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Gallwch weld rhestr yn yr adran Gymraeg ar y fewnwyd.

Pan anfonwch unrhyw ohebiaeth dylai fod yn ddwyieithog oni bai fod sawl fydd yn ei derbyn wedi dweud yn wahanol

Mae'n rhaid i unrhyw ohebiaeth i grwpiau staff sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg fod yn ddwyieithog

Dylai fod gan ddiwyddiadau cyhoeddus/seremonïau gwobrwyo gyfarchiad dwyieithog ac mae'n rhaid i bob cyhoeddiad fod yn ddwyieithog

Mae'n rhaid cyfarch pod ymwelydd i ardaloedd derbyn gyda chyfarchiad dwyieithog

Dylai hysbysiadau/posteri (ac eithrio'r rhai a gynhyrchwyd gan ddsygwr, er y dylid annog hwn) fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg wedi'i lleoli fel y mae'n debygol y caiff ei darllen yn gyntaf.

Os byddwch yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, mae'n rhaid i chi ateb yn Gymraeg.

Bydd yn rhaid i bob dogfen/furflen fod yn ddwyieithog

Anogir siaradwyr Cymraeg i wisgo bathodyn/cortyn gwddf i ddangos i bobl eraill eu bod yn gallu siarad yn Gymraeg

Dylai Staff Dysgu hefyd fod yn ymwybodol:
Dylid dweud wrth ddsygwr y gallan nhw gyflwyno gwaith yn Gymraeg os dynt yn dymuno gwneud hynny.

Dylid cynnig mynediad at ddiwtor personol sy'n siarad Cymraeg i ddsygwr Cymraeg.

Rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf ohonoch chi eisoes yn gwneud y pethau hyn ond mae'n rhaid i ni i gyd fod yn fwy gofalus ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd er mwyn osgoi dirwy fawr a niwedi i enw da'r coleg.
Os bydd angen unrhyw gymorth gyda'r uchod arnoch, mae croeso i chi gysylltu ag aelod dynodedig o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar eich campws. Gallwch weld rhestr yn yr adran Gymraeg ar y fewnwyd.
Gallwch hefyd anfon unrhyw ymholiadau cyffredinol at e-bost at WelshStandards@colegwent.ac.uk

Isod, mae diweddariad o sut mae Coleg Gwent wedi cydymffurfio gyda Safonau Cyflenwi Gwasanaethau perthnasol yn y cyfnod rhwng y 1af o Awst a 31ain o Orffennaf 2019.

Rhif y safon	Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio (1af o Awst – 31ain o Orffennaf 2019)
1-7	Mae pob aelod staff sy'n gohebu ag eraill wedi cael canllawiau manwl ar rwymedigaethau'r coleg o dan Safonau'r Gymraeg. Mae cymorth ar gael i alluogi staff i ohebu ag eraill yn y Gymraeg drwy ddefnyddio cyfieithwyr ac aelodau eraill o'r staff sy'n siarad Cymraeg.
8	Mae pob aelod o staff sy'n gohebu ag eraill wedi cael canllawiau manwl ar rwymedigaethau'r coleg o dan Safonau'r Gymraeg wrth gyfarch galwyr.

9-13	Mae'r coleg wedi buddsoddi mewn system gweithredu ffonau newydd, sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Safonau sy'n ymwneud â delio ag ymholiadau ffôn yn y Gymraeg.
14	Mae'r Adran Farchnata a chyfathrebu yn monitro, pan y cyhoeddir rhifau ffôn Coleg Gwent, ein bod yn nodi (yn Gymraeg) bod y coleg yn croesawu galwadau yn Gymraeg.
15	Amherthnasol
16-22	Mae'r coleg wedi buddsoddi mewn system gweithredu ffonau newydd, sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Safonau sy'n ymwneud â delio ag ymholiadau ffôn yn y Gymraeg.
24-34	Mae pob aelod o staff sy'n trefnu cyfarfodydd gydag eraill wedi cael canllawiau manwl ar rwymedigaethau'r coleg o dan Safonau'r Gymraeg. Mae cymorth ar gael i alluogi staff i ohebu ag eraill yn y Gymraeg drwy ddefnyddio cyfieithwyr ac aelodau eraill o'r staff sy'n siarad Cymraeg.
35 – 42	Mae pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael canllawiau manwl ar hyrwyddo digwyddiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Cynhelir archwiliadau mewnol yn rheolaidd ac mae prosesau ar waith i ddelio'n ddi-oed ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth.
43-54	Mae'n ofynnol fod pob dogfen gyhoeddus yn cael ei chymeradwyo gan yr Adran Farchnata. Mae hynny'n dileu unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfiaeth.
55-59	Dyddiad gorfodi wedi'i ymestyn i 1/10/19. Mae porth y staff newydd wedi ei lansio ac yn gwbl ddwyieithog.
60	Mae meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar gael ar holl gyfrifiaduron staff a myfyrwyr.
61-63	Mae'n ofynnol fod pob ap a phob cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn cael ei gymeradwyo gan yr Adran Farchnata. Mae hynny'n dileu unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfiaeth.
64	Sticeri Cymraeg wedi cael eu hychwanegu ar beiriannau hunanwasanaeth.
65-67	Mae pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael canllawiau manwl ar arwyddion, i sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Cynhelir archwiliadau mewnol yn rheolaidd ac mae prosesau ar waith i ddelio'n ddi-oed ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth.
73, 74	Mae'n rhaid i bob hysbysiad gael ei gymeradwyo gan yr Adran Farchnata cyn cael ei osod, i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau perthnasol.
75-79	Mae'r holl weithdrefnau ar gyfer grantiau neu gymorth ariannol ar gael yn y Gymraeg ac ni fydd ceisiadau yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.
80-84	Mae'r coleg yn sicrhau bod pob gwahoddiad i dendro am gontract yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg (ac na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol) os yw pwnc y tendr am gontract yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn y

	Gymraeg; neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'i disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn y Gymraeg.
85	Mae'r gwasanaeth Cymraeg mae'r Coleg yn ei ddarparu yn cael ei hyrwyddo a'i hysbysebu yn Gymraeg ar bob plattform sydd ar gael.
86-88	Mae'n ofynnol fod pob dogfen gyhoedduswydd yn cael ei chymeradwyo gan yr Adran Farchnata. Mae hynny'n dileu unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfio.
89	Mae pob cyfle dysgu newydd yn cael ei asesu o ran yr angen i gynnig y ddarpariaeth honno yn y Gymraeg. Mae'r gwerthusiadau hyn ar gael at ddibenion archwilio.
90	Cysylltir yn bersonol â phob dysgwr sy'n siarad Cymraeg i'w hysbysu am ei hawl i gyflwyno gwaith yn y Gymraeg.
90A	Ni fydd unrhyw adran yn trin gwaith a gyflwynir yn y Gymraeg yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn y Saesneg.
93	Cysylltir yn bersonol â phob dysgwr sy'n siarad Cymraeg i'w hysbysu am ei hawl i gael mynediad at diwtor personol sy'n siarad Cymraeg.

Ar ôl y 16ed o Ragfyr 2019, bydd Coleg Gwent hefyd yn cydymffurfio gyda'r 3 Safon Gweithredol isod. Mae paratodau'n cael eu gwneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llwyr erbyn y dyddiad yma.

Rhif y safon	Safon
55	Rhaid i chi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg
58	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.
59	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

Cydymffurfio â'r Safonau Gwneud Polisi

Isod, mae diweddariad o sut mae Coleg Gwent wedi cydymffurfio gyda Safonau Gwneud Polisi yn y cyfnod rhwng y 1af o Awst a 31ain o Orffennaf 2018.

Rhif y safon	Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio (1af o Awst – 31ain o Orffennaf 2019)
94-96	<p>Ers y 1af o Ebrill 2018, mae'r coleg yn asesu effaith unrhyw bolisi newydd ar y Gymraeg, o ran —</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac yn ystyried ffyrdd y gallai polisïau gael effaith mwy cadarnhaol.</p> <p>Bydd pob awdur polisi yn cwblhau adran asesu effaith ar gyfer pob polisi newydd a bydd Tîm Safonau'r Gymraeg yn adolygu hwn.</p>
97-99	<p>Mae unrhyw ddogfen ymgynghori a gyhoeddir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018 yn rhoi ystyriaeth i bob elfen o Safonau 97 a 98. Mae pob awdur dogfen ymgynghori yn cwblhau adran asesu effaith a bydd Tîm Safonau'r Gymraeg yn adolygu hwn.</p>
100	<p>Mae Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn wedi ei ddiwygio yn unol â gofynion Safon 100. Mae'r polisi ar gael ar wefan y coleg.</p>
101-103	<p>Bydd cydymffurfiaeth yn rhan o unrhyw dendr am unrhyw waith a wneir ar ran y coleg. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Safonau Llundio Polisi.</p>
104	<p>Ers y 1af o Ebrill 2018, mae pob ffurflen gais am gwrs newydd a anfonir at Gyfarwyddwr y Cwricwlwm yn nodi'r canlynol:</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheiny'n bositif neu'n andwyol), y byddai'r cwrs hwnnw'n eu cael ar</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y byddai'r cwrs hwnnw'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut na fyddai'r cwrs hwnnw'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Mae hyn yn cael ei adolygu gan Gyfarwyddwr y Cwricwlwm a Thîm Safonau'r Gymraeg cyn cymeradwyo.</p>

1. Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

Isod, mae diweddariad o sut mae Coleg Gwent wedi cydymffurfio gyda Safonau Gweithredol yn y cyfnod rhwng y 1af o Awst a 31ain o Orffennaf 2019.

Rhif y Safon	Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio (1af o Awst- 31ain o Orffennaf 2019)
105	Mae gennym bolisi strategaeth ddwyieithog a gyhoeddir ar ein tudalen polisïau ar y fewnwyd. Mae Strategaeth Dwyieithrwydd 2019-10124 nwydd mewn lle ac wedi ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Gymraeg. Mae'r strategaeth uchelgeisiol yma yn adlewyrch strwythur staffio newydd y coleg.
106 - 110	Gofynnir i bob unigolyn yn y pecyn gwiriadau cyn cyflogi os ydy ef neu hi'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg, a'i ddarparu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Mae pob gweithiwr wedi nodi os ydy ef/hi yn dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur yn Gymraeg, a'i ddarparu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
111	Mae gennym gyfleuster hunanwasanaeth Cymraeg i weithwyr. Gall gweithwyr ddefnyddio hwn i neilltuo gwyliau blynyddol yn y Gymraeg a chofnodi absenoldebau. Mae ffurflenni caniatâd i fod yn absennol a ffurflenni gweithio'n hyblyg ar gael yn y Gymraeg ar y fewnwyd.
112 - 118	Mae polisïau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.
119, 119A	Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a bydd pob gohebiaeth Cymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg.
121	Pryd bynnag y trefnir cyfarfod, rhoddir gwybod i weithwyr y caiff staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ac y defnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen.
122 - 123A	Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a bydd pob gohebiaeth Cymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg.
125	Pryd bynnag y trefnir cyfarfod, rhoddir gwybod i weithwyr y caiff staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ac y defnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen.
126	Mae gohebiaeth Cymraeg ynglŷn â mater o ddisgyblu yn cael ei hateb yn Gymraeg.
127	Mae meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar gael ar holl gyfrifiaduron staff a myfyrwyr.
134	Mae modd i weithwyr diweddarau eu sgiliau Cymraeg ar ein plattform hunanwasanaeth i weithwyr.
135	Amherthnasol
136	Mae adran Adnoddau Dynol wedi trefnu cyrsiau hyfforddiant Cymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu ar gyfer 2018-19.

138, 139	Mae gwersi Cymraeg am ddim ar gael i staff. Mae hyn wedi'i nodi yn y polisi dysgu a datblygu.
140	Ceir cwrs ar-lein ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg y mae'n rhaid ei gwblhau yn ystod y cyfnod cynefino.
141	Mae darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ran o'n trefniadau cynefino.
142 - 144A	Mae'r canlynol ar gael ar gyfer holl staff y coleg; <ul style="list-style-type: none"> • logo a geiriad ar gyfer llofnodion e-bost eich, sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. • geiriad fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst • fersiwn Gymraeg o neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost. • Cortyn a bathodyn o wisgo i gyfleu eu bod yn siarad Cymraeg.
145	Mae rheolwyr llinell yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, ac yn dewis y category perthnasol: <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>
145A	Os yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu ddymunol, neu fod angen eu dysgu, mae hynny'n cael ei nodi'n glir yn yr hysbyseb ac yn hysbysebu yn y Gymraeg.
146, 146A, 146B	Mae pob ffurflenni cais am swyddi, deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi, gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r dogfennau Saesneg. Nid yw ceisiadau am swydd a wneir yn Gymraeg yn cael llai eu trin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.
148	Mae blwch ar ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, ac yn esbonio ein bod yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen. <p>Os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad.</p>
149	Wrth roi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rydyn ni'n wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.

Ar ôl y 1af o Hydref 2019, bydd Coleg Gwent hefyd yn cydymffurfio gyda'r 3 Safon

Gweithredol dilynol

Standard Number	Safon
128	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.
131	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.
133	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.

Hyfforddiant Staff

Yn 2018-19, mae 22 aelod o staff ran yn brosiect peilot Cymraeg Gwaith Addysg Bellach i gefnogi darlithwyr Colegau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth addysgu. Mae'r ffigwr hwn yn cymharu'n ffafriol o gymharu â nifer o staff oedd yn dysgu Cymraeg trwy'r prosiect mewn Colegau AB eraill.

O fis Mehefin 2019, mynychodd 37 o staff addysgu'r coleg hyfforddiant 'Ymsefydlu'r Gymraeg' gan Sgiliaith, i gynnig addysg fwy dwyieithog i ddysgwyr. Trefnwyd hyfforddiant pellach Sgiliaith ar gyfer staff mewn gwahanol rolau ac ar wahanol lefelau ar gyfer 2019-20.

Monitro Cydymffurfiaid

Bu'r tîm Cymraeg / Dwyieithrwydd yn cydweithio'n agos ag uwch reolwyr eraill i roi cyngor ar gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd gyda staff unigol allweddol gan gynnwys penaethiaid cwricwlwm, marchnata, Adnoddau Dynol a staff sy'n siarad Cymraeg.

Gwnaed gwiriadau mewnol ar hap i sicrhau bod arwyddion yn cydymffurfio â'r safonau, bod negeseuon llais ar y ffôn yn ddwyieithog, a chynhaliwyd ymarferion math Dirgelwch Siopwyr rheolaidd. Mae'r ymarfer Siopwr Cudd yn edrych ar y gwasanaeth a gynigir gan y coleg, gan gynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb â staff y derbynfydd, ymholiadau ffôn ac ymholiadau ar-lein.

Dangosodd y canlyniadau o'r ymarferiad a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2019, fod y coleg yn cydymffurfio'n llawn yn y rhan fwyaf o achosion. Cafodd y siopwr cudd gyfarch Cymraeg mewn 4 campws allan o 5 a chafwyd ymateb Cymraeg i ymholiad Cymraeg a'i drosglwyddo i aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg ar bob campws.

Gweithgaredd Siopwr Cudd	Campysau wedi cydymffurfio'n llawn
Cyfarchiad Cymraeg	4/5 Dim Crosskeys
Ymateb Cymraeg i ymholiad Cymraeg	4/5 Dim Crosskeys
Trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r ymholiad at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.	5/5

Cafwyd ymateb prydlon i ymholiad ar-lein Cymraeg a anfonwyd ym mis Mai 2019.

Rhannwyd canfyddiadau'r gweithgaredd gyda rheolwyr a staff perthnasol i drafod eu cryfderau. Trefnwyd hyfforddiant a chyngor pellach i'r staff yn y campws na lwyddodd i gydymffurfio er mwyn delio gyda'r mater yn brydlon.

Mae gan y coleg Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg sy'n cael ei gyd-gadeirio gan y Rheolwr Datblygu Dwyieithog a'r Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol. Yn bennaf mae'r grŵp yn cynnwys grŵp rheoli'r coleg. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn dymhorol i drafod diweddariadau am y Safonau, yn cynnwys canlyniadau gweithgareddau Siopwr Cudd, ymhlith materion Cymraeg / Dwyieithrwydd eraill.

Sgiliau Cymraeg Staff

Roedd 67 o staff (7%) oedd gweithio yng Ngholeg Gwent ar y 31ain o Orffennaf 2019 yn siarad Cymraeg yn rhugl. Maer canran wedi aros yr un fath a llynedd.

Yn y tabl isod, gwelir fwy o fanylion ar sgiliau llafar ac ysgrifenedig staff y Coleg yng Ngorffennaf, 2019. Mae'r data yn cynnwys lefel Cymraeg staff Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent, a leolir ar gampws Coleg Gwent ym Mhont-y-pŵl.

Lefel Cymraeg	Llafar (nifer o staff)	Llafar (%)	Ysgrifenedig (nifer o staff)	Ysgrifenedig (%)
Dim	518	44.2	639	53.3
Sylfaenol iawn	231	19.7	187	14.3

Sylfaenol	304	25.9	238	19.2
Canolradd	35	2.9	30	2
Uwch	15	1.3	13	1.2
Rhugl	67	5.7	63	5.4

Cafodd cyfleoedd amrywiol eu hyrwyddo i bob aelod o staff i wella eu sgiliau Cymraeg, trafodwyd y rhain o dan adran 'Hyfforddiant Staff' yr adroddiad. O ganlyniad i ddarpariaeth a chyfleoedd newydd i wella sgiliau yn y coleg, dylai nifer y staff sy'n siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg ar lefel uwch ac yn rhugl weld cynnydd pellach yn y dyfodol.

Recriwtio ar gyfer Swyddi Newydd a Swyddi Gwag

Roedd y nifer o'r swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd gan Goleg Gwent, rhwng 1af Awst a 31 Gorffennaf 2019, a gafodd eu categoreiddio yn ôl gofynion amrywiol mewn perthynas â Sgiliau Iaith Gymraeg fel a ganlyn;

- Dymunol – 91
- Hanfodol – 21
- Angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg - 1

Cofnod o gwynion

Dylid gwneud cwynion yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau'r Gymraeg i Gyfarwyddwr Gwasanaethau a Chefnogi Dysgwyr. Mae'r wybodaeth berthnasol a'r manylion cyswllt ym Mholisi a Gweithdrefn Cwynion Coleg Gwent, sydd ar gael i'w darllen ar wefan y coleg, o dan yr adran Canmoliaethau a Chwynion.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chydymffurfiaeth Coleg Gwent â Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod rhwng 1af Awst 2018 - 31 Gorffennaf 2019.